

CYLCHLYTHYR IECHYD CYMRU



Dyddiad Cyhoeddi: 29 Medi 2014

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

STATWS: CYDYMFFURFIO

CATEGORI: POLISI

Teitl: Egwyddorion a Chanllawiau – Gweithwyr Allweddol ar gyfer Cleifion Canser

Dyddiad Dod i ben / Dyddiad yr Adolygiad Dd/B

I'w weithredu gan:
Prif Weithredwyr

Angen gweithredu erbyn:
Ar unwaith

Anfonwr:
Katy Hossack, Ysgrifennydd Preifat i Gyfarwyddwr Cyffredinol AIGC/Prif Weithredwr y GIG

Enw(au) Cyswllt AIGC Llywodraeth Cymru :
Chris Dawson – 02920 826383
Pennaeth Cyflyrau Iechyd Difrifol
Parc Cathays, Caerdydd

Dogfennau amgaeedig: Llythyr oddi wrth Andrew Goodall, dogfen Egwyddorion a Chanllawiau



Prif Weithredwyr - Byrddau Iechyd Lleol y GIG
Prif Weithredwyr – Ymddiriedolaeth GIG Felindre

Ein Cyf: WHC/001/14

23 Medi 2014

Annwyl Gydweithiwr

Egwyddorion a Chanllawiau – Gweithwyr Allweddol ar gyfer Cleifion Cancer

Byddwch yn ymwybodol bod ymrwymiad wedi cael ei wneud ym mis Ebrill 2011 gan Lywodraeth Cymru i bob claf Cancer gael Gweithiwr Allweddol penodol. Ar y pryd, ni chyhoeddwyd unrhyw ganllawiau ac ers hynny mae Sefydliadau wedi datblygu eu canllawiau gweithredol eu hunain i gefnogi'r rôl hon. Er hynny, er gwaetha'r ffaith bod Arolwg Profiad Cleifion 2013 wedi dangos yn glir bod gweithwyr allweddol yn fanteisiol, gyda'r cleifion sydd â gweithiwr allweddol yn cofnodi sgoriau boddhad uwch yn gyson, dangosodd yr adroddiad mai dim ond 66% o gleifion oedd â gweithiwr allweddol a bod amrywiaeth mawr rhwng Sefydliadau a grwpiau tiwmor.

Er ei bod yn amlwg bod gan lawer o gleifion Weithiwr Allweddol, mae'r anghysondeb yr adroddwyd amdano yn yr Arolwg Profiad Cleifion yn peri pryder.

Mae'r ddogfen Egwyddorion a Chanllawiau sydd wedi'i chynnwys gyda'r llythyr hwn wedi'i llunio yn awr ar ôl ymgynghori â Byrddau Iechyd, Ymddiriedolaeth GIG Felindre, aelodau'r Grŵp Gweithredu Cancer, cleifion cancer a'u gofalwyr. Cafodd y ddogfen ei chymeradwyo gan y Grŵp Gweithredu Cancer ar 17^{eg} Medi. Drwy roi'r Egwyddorion hyn ar waith, mae'r Grŵp yn disgwyl y bydd posib i ni sicrhau gwell cysondeb yn y gefnogaeth sy'n cael ei darparu i unigolion gan Weithwyr Allweddol.

Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl y bydd camau gweithredu'n cael eu rhoi ar waith yn awr i sicrhau mwy o gyflwyno cyson ar bolisi'r Gweithwyr Allweddol, yn unol â'r dogfennau hyn. Dylai'r canllawiau cyson hyn fod o help.

Bydd rôl y Gweithwyr Allweddol yn cael ei monitro mewn sawl ffordd. Byddwn yn gofyn i'r rhwydweithiau cancer archwilio'r gweithredu a chynnwys trafodaeth ar y Gweithwyr Allweddol yn y broses Adolygu Cymheiriaid. Byddwn hefyd yn gofyn am farn y cleifion yn yr

Arolwg Profiad Cleifion nesaf. Efallai hefyd y byddwch chi'n dymuno ystyried sut byddwch yn sicrhau cynnydd ar lefel leol.

Yn gywir

A handwritten signature in black ink, appearing to read 'Andrew Goodall', written in a cursive style.

Dr Andrew Goodall

Egwyddorion a Chanllawiau – Gweithwyr Allweddol ar gyfer Cleifion Cancer

Egwyddorion

1. Diffiniad o Weithiwr Allweddol:
“person sydd, gyda chaniatâd a chytundeb y claf, yn chwarae rhan allweddol yn y gwaith o gydlynu gofal y claf a hybu cysondeb, gan sicrhau bod y claf yn gwybod lle mae cael gwybodaeth a chyngor” (Y Sefydliad Cenedlaethol dros Iechyd a Rhagoriaeth Glinigol 2004)
2. Un person sy'n gweithredu fel cydlynnydd ac yn hwyluso mynediad at wybodaeth, gofal, cyswllt a chefnogaeth drwy gydol siwrnai'r cancer. Bydd yn gofalu am hyn rhwng y gweithwyr iechyd proffesiynol a'r claf, gan gynnwys y timau gofal sylfaenol perthnasol, i sicrhau cysondeb yn y gofal a gwasanaeth di-dor. Efallai y bydd y person hwn yn newid yn ystod siwrnai'r Cancer ond rhaid sicrhau cyn lleied o newidiadau â phosib.
3. Mae'n gyfrifol ar y dechrau am asesu a darparu cefnogaeth sy'n briodol i'r cyd-destun ac yn sensitif i ddiwallu anghenion y claf/gofalwr a/neu'r teulu. Bydd hyn yn galluogi iddynt eu helpu eu hunain, drwy eu cyfeirio'n briodol neu hwyluso mynediad at gefnogaeth ychwanegol gan weithwyr iechyd proffesiynol eraill neu gydag anghenion cyfannol ehangach e.e. cyngor ariannol neu les.
4. Mae'n sicrhau bod cynllun Gofal priodol yn cael ei lunio gyda chytundeb y claf, a fydd eisoes wedi bod yn rhan allweddol o'r trafodaethau wrth greu'r cynllun. Mae'n sicrhau bod y cynllun yn cael ei gyfathrebu wedyn i eraill sy'n ymwneud â gofal y claf, yn enwedig pan mae'r claf yn symud rhwng gofal sylfaenol, eilaidd ac arbenigol.
5. Mae'n cyfathrebu ac yn cydlynu gwybodaeth i gleifion a gofalwyr, gan werthuso lefel eu dealltwriaeth a defnyddio ystod o sgiliau/technegau i oresgyn unrhyw anawsterau cyfathrebu.
6. Mae'n rhaid i'r claf gael enw a manylion cyswllt y Gweithiwr Allweddol, a chael gwybod beth yw ei rôl, wrth gael diagnosis ac ar ôl trosglwyddo gofal wedyn.
7. Mae'n rhaid i'r Gweithiwr Allweddol fod yn hawdd cysylltu ag ef ac yn barod i ymateb bob amser. Er hynny, nid yw'r rôl yn rôl cyswllt brys ac felly nid oes disgwyl i'r Gweithiwr Allweddol fod ar gael 24/7. Nid yw'r Gweithiwr Allweddol yn cymryd lle arbenigwyr clinigol wrth ddarparu'r llwybr cancer.

Canllawiau

- **Pwy ddylai fod yn Weithiwr Allweddol?**

Wrth gael triniaeth gan y Tîm Amlddisgyblaethol (TA) ar gyfer cancer, mae'r gweithiwr allweddol yn debygol o fod yn aelod o'r tîm hwnnw a gallai fod yn Arbenigwr Nyrsio Clinigol (ANC) neu'n arbenigwr adsefydlu.

Os nad yw o dan reolaeth weithredol y TA ar gyfer cancer, byddai'r Gweithiwr Allweddol yn aelod o'r tîm gofal sylfaenol. Mae cynnwys y Meddyg Teulu yn allweddol hefyd, oherwydd mae llawer o gleifion sy'n byw gyda chanser yn byw hefyd gydag o leiaf 2 os nad mwy o gyflyrau cronig eraill.

Ar gyfer pob math o ganser bron, mae'n bur debyg y bydd yr ANC yn cyflawni rôl y Gweithiwr Allweddol. Os nad oes ANC ar gael, dylai'r Gweithiwr Allweddol fod yn weithiwr proffesiynol perthnasol arall, fel sydd wedi'i ddatgan gan y TA.

- **Neilltuo gweithiwr allweddol.**

Mae disgwyl y bydd y Gweithwyr Allweddol yn cael eu hadolygu ar gyfnodau allweddol ar siwrnai ganser y claf. Dyma'r cyfnodau allweddol:

- Tua amser y diagnosis
- Dechrau'r driniaeth
- Cwblhau'r cynllun triniaeth sylfaenol
- Yr afiechyd yn dod yn ôl
- Pan sylweddolir nad oes modd ei wella

Mae posib newid y gweithiwr allweddol, wrth i anghenion y claf newid, i sicrhau bod y claf yn cael ei arwain gan y gweithiwr gofal iechyd proffesiynol mwyaf priodol. Mae'n rhaid gwneud cofnod llawn o newid y gweithiwr allweddol a rhoi gwybod i'r holl weithwyr proffesiynol perthnasol. Dylid sicrhau cyn lleied â phosib o newidiadau.

Mae'r arferion gorau ar gyfer Gweithwyr Allweddol yn datgan y dylai'r unigolyn fod â sgiliau cyfathrebu a/neu gwnsela ar lefel uwch.

Mae'n hanfodol bod gan y Gweithiwr Allweddol wybodaeth briodol, neu ei fod yn gallu cael hyd i'r wybodaeth briodol, i ddiwallu anghenion y claf ar y pryd.

- **Safonau**

- Mae'n rhaid neilltuo Gweithiwr Allweddol i bob claf Canser
- Mae'n rhaid cofnodi enw'r Gweithiwr Allweddol yn nodiadau'r claf
- Mae'n rhaid cofnodi enw'r Gweithiwr Allweddol ar System Gwybodaeth Rhwydweithiau Canser Cymru
- Mae'n rhaid rhoi enw'r Gweithiwr Allweddol i Feddyg Teulu'r claf
- Mae'n rhaid i gleifion dderbyn Cerdyn Gweithiwr Allweddol wedi'i gwblhau, gyda manylion cyswllt eu Gweithiwr Allweddol, yn ogystal â thaflen wybodaeth y cleifion yn disgrifio rôl y Gweithiwr Allweddol.

- **Rôl y Gweithiwr Allweddol**

- Symbylu a chymryd rhan yn nhrafodaethau'r TA ar ofal canser a lliniarol, a'r cynadleddau achos, gyda'r holl weithwyr proffesiynol sy'n ymwneud â gofalu am y claf.
- Gweithredu fel eiriolwr ar ran y claf.
- Gweithredu mewn ffordd sy'n cefnogi'r claf i reoli ei ofal ei hun.
- Bod ar gael ac ymateb i'r claf bob amser.
- Gweithredu fel cydlynnydd ac adnodd cyfathrebu ar gyfer aelodau eraill y tîm amlddisgyblaethol wrth ofalu am lwyth achosion y gweithiwr allweddol.
- Ar y cyd â'r TA, rhoi i gleifion wybodaeth gynhwysfawr am yr opsiynau triniaeth a gofal sydd ar gael iddynt.
- Cydlynu'r gwaith o gyfeirio cleifion a/neu aelodau'r teulu ymlaen at wasanaethau clinigol neu gefnogi priodol.
- Defnyddio'r strategaethau a'r ymyriadau cefnogi sydd ar gael, cyfeirio'n briodol wrth ofalu am gleifion ag anghenion cymhleth, e.e. cleifion sy'n gwadu/yn ddiog iawn ar ôl cael diagnosis o ganser, ac yn ymateb yn wael i newidiadau i ddelwedd eu corff.
- Dangos gwybodaeth am ofal canser cyfannol perthnasol i feysydd fel sgrinio, triniaeth i wella a thriniaeth liniarol, gofal ysbrydol, agweddau ar faeth a ffarmacoleg, adsefydlu, rhyddhau a gweithio ar y cyd.
- Dangos gwybodaeth gynhwysfawr am ofynion asesu, gofal, cefnogaeth reoli, addysg hyfforddi a gwybodaeth ar gyfer cleifion sy'n cael cemotherapi, radiotherapi neu driniaeth a'u gofalwyr, a thriniaeth ar gyfer cymhlethdodau cysylltiedig ar draws y llwybr gofal ar gyfer y maes arbenigedd penodol.
- Cyfeirio at (neu ddarparu lle bo angen) wybodaeth, addysg a chysylltiadau ffôn perthnasol i gleifion a gofalwyr ynghylch gweithdrefnau a sgil-ffeithiau cemotherapi a radiotherapi cyffredinol, fel blinder ac adweithiau ar y croen.
- Cyfeirio at grwpiau cefnogi lleol neu wefannau priodol sy'n gallu rhoi gwybodaeth/cefnogaeth i'r claf a'r gofalwr/teulu.
- Cyfeirio at wybodaeth a chysylltiadau perthnasol am gyngor ynghylch cyllid a budd-daliadau lles.
- Bod yn wybodus am reoli sgil-ffeithiau cyffredin (a rhoi gwybod i gleifion am hynny) triniaethau cysylltiedig â'r grŵp o gleientiaid maent yn dod ar eu traws yn eu gwaith.
- Bod yn ymwybodol o drefniadau cyswllt lleol os yw cleifion yn dioddef sgil-ffeithiau annymunol.
- Cysylltu'n effeithiol ar draws ffiniau sefydliadol a daearyddol lle bo angen, i ddiwallu anghenion y claf.
- Dangos gwybodaeth i baratoi, addysgu a rhoi gwybod i gleifion/gofalwyr am oroesi, gan ddefnyddio a chyfeirio at y Trydydd Sector am gefnogaeth a gwybodaeth yn ystod y driniaeth ac ar ei diwedd a, lle bo hynny'n berthnasol,

at bersonél gofal sylfaenol ynghylch unrhyw ofynion gofal cysylltiedig, rheoli symptomau a manylion cyswllt wrth ryddhau.